TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

OCR Daeareg Safon Uwch Lefel 3

Yn gryno

Mae'r cwrs Safon Uwch Daeareg hwn yn rhoi'r holl sgiliau sylfaenol ac ymarferol sydd eu hangen ar bob dysgwr i'w harfogi â gwybodaeth sylfaenol a datblygu eu geirfa wyddonol ym maes daeareg. Gan edrych ar bynciau sy'n amrywio o fwynoleg i ffosilau a hyd yn oed echdynnu creigiau, mae'r cwrs yn archwilio dimensiynau gwyddonol traddodiadol daeareg, ond hefyd cymwysiadau mwy ymarferol a dynol daeareg.

Dyma'r cwrs i chi os...

..yw gwyddoniaeth ein planed o ddiddordeb mawr i chi

..ydych yn cael eich ysgogi gan ddysgu mewn ffordd weithredol ac ymarferol

..oes gennych uchelgais i astudio Gwyddor Daear ar lefel gradd

Beth fyddaf yn ei wneud?

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae'r cwrs Safon Uwch Daeareg yn gwrs llinol wedi'i rannu dros ddwy flynedd. Yn ystod y ddwy flynedd, byddwch yn astudio:

Cydran 1: Hanfodion Daeareg
Cydran 2: Llythrennedd Gwyddonol mewn Daeareg
Cydran 3: Sgiliau Ymarferol mewn Daeareg

Caiff cydrannau 1, 2 a 3 eu harholi/ Yn ogystal, mae Cydran 4 sy'n 'Arnodiad Ymarferol mewn Daeareg' sy'n cael ei hadrodd ar wahân a'i chwblhau fel rhan o'ch arholiadau ymarferol yn y dosbarth ac ar y maes.

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gael lle ar y cwrs hwn, bydd angen lleiafswm o gymwysterau TGAU arnoch yn cynnwys Mathemateg/Rhifedd Mathemateg, Iaith Saesneg a Gwyddoniaeth ar radd B neu uwch. Mae TGAU Daearyddiaeth ar radd B neu uwch yn ddymunol, ond nid yw'n hanfodol.

Mae angen ymrwymiad llawn i bresenoldeb, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a'r gallu i gymell eich hun. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaus ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn dilyn cwblhau eich cymhwyster Safon Uwch Daeareg, mae nifer o gyrsiau prifysgol ar gael mewn Gwyddor Daear, Geocemeg ac astudiaethau Daearegol.